# PARRY, EDWARD (1723 - 1786), prydydd, 'cynghorwr' Methodistaidd, ac emynydd

**Enw:** Edward Parry
**Dyddiad geni:** 1723
**Dyddiad marw:** 1786
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prydydd, 'cynghorwr' Methodistaidd, ac emynydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Edward Davies

Ganwyd yn 1723 yn Llys Bychan, Llansannan. Saer coed ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn gyfoed â 'Twm o'r Nant,' ac yn un o'i chwaraewyr mwyaf dawnus. Priododd ddwywaith, a bu'n byw yng Nghefn Byr a Than y Fron. Yn 1747 cefnodd ar yr anterliwt, gan groesawu'r diwygwyr i'w d . Yn 1749 dechreuodd ' gynghori ' ond daeth yr ymraniad rhwng Howel Harris a Daniel Rowland ac oerodd ei sêl, ac aeth yn ôl i gorlan yr Eglwys. Yn 1761 symudodd i fyw o Dan y Fron i Fryn Bugad a dychwelyd at y Methodistiaid. Ailymwelodd cynghorwyr y De a'r Gogledd, a daeth Edward Parry, oherwydd ei sêl a'i ddawn, yn gynghorwr pennaf y broydd, a gwahoddwyd ef i efengylu yn Llundain. Yn 1773 cododd gapel ar ei dir yn Nhan y Fron. Yn 1764 cyhoeddodd, gyda ' Twm o'r Nant ' a David James, Llansannan, *Y Perl Gwerthfawr*. Yn 1767 cyhoeddodd *Agoriad i Athrawiaeth y Ddau Gyfamod* (ail arg. yn 1781). Yn 1774 argraffwyd yn Nhrefeca ddeuddeg tudalen 'dros Edward Parry ' yn cynnwys galarnad ac ychydig Hymnau. Yn 1789 cyhoeddwyd *Ychydig Hymnau*, yn yr hwn yr ymddangosodd y ddau emyn ' Caned nef a daear lawr ' a ' Plant afradlon at eich Tad.' Bu farw 16 Medi 1786, yn 63 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llansannan.

## Awdur

**Edward Davies**

## Ffynonellau


*Goleuad Cymru* (Caerlleon 1820-1830), 1827, 446, 464, 490, 516, 558

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), i, 143-6; iii, 113-25

*Enwogion y Ffydd* (1880)

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945)

E. P. Jones, *Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych, 1735–1909* (1936), 24


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edward Parry

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732970


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu